

Crynodeb o'r Penderfyniadau

Y cynnig	Penderfyniad
TREFNIADAETH ADDYSG A CHYNNWYS ADDYSG	
1. Sicrhau adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg	Pasiwyd yn unfrydol
2. Sensitifrwydd wrth bennu cynnwys cyrsiau Cymraeg	Gwnaed gwelliant– pasiwyd y gwelliant
3. Adnoddau Cymraeg ar gyfer TAAU	Pasiwyd yn unfrydol
4. Categoriâu iaith ysgolion	Gwnaed gwelliant – pasiwyd y gwelliant
5. Categoriâu iaith ysgolion – y ddarpariaeth ieithyddol	Pasiwyd yn unfrydol
AMODAU GWAITH	
6. Hyfforddiant CBAC	Pasiwyd yn unfrydol
7. Ariannu cyflogau athrawon	Pasiwyd (un yn ymatal)
8. Ariannu ysgolion	Pasiwyd yn unfrydol
9. Cyflogi athrawon dan hyfforddiant	Pasiwyd yn unfrydol
10. Newid cewynau	Pasiwyd yn unfrydol
11. Ariannu unedau arbennig	Pasiwyd yn unfrydol
12. Ymddygiad disgyblion	Pasiwyd yn unfrydol
13. Diarddel disgyblion	Gwnaed gwelliant a gwelliant newydd – pasiwyd y gwelliant newydd
14. Mesur ysgolion yn ôl niferoedd sy'n cael eu diarddel	Pasiwyd yn unfrydol
15. Darpariaeth amgen	Pasiwyd yn unfrydol
16. Cynlluniau clo mewn ysgolion	Pasiwyd yn unfrydol
17. Rhieni bygythiol	Pasiwyd yn unfrydol
18. Ymddygiad heriol rhieni	Syrthiodd y cynnig
19. Sefyllfa Deallusrwydd Artiffisial	Syrthiodd y cynnig
C. Arall	
20. Dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn y gymuned	Gwnaed gwelliant – pasiwyd y gwelliant
21. Athrawon a'r Cyfryngau	Pasiwyd yn unfrydol
CYNNIG BRYG	
22. Dysgu'r wyddor yn ôl enwau'r llythrennau	Pasiwyd (o blaid 8, yn erbyn 5, yn ymatal 6)

A Trefniadaeth Addysg a Chynnwys Addysg

Cynnig 1 Sicrhau adnoddau cyfrwng Cymraeg

Mae newidiadau i gyrsiau TGAU o fis Medi 2025 ymlaen sy'n golygu manylebau newydd. Mae CBAC wedi nodi y bydd y deunyddiau ar gyfer y cyrsiau newydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar CBAC i sicrhau fod yr adnoddau perthnasol, ac yn benodol yr adnoddau cyfrwng Cymraeg, yn cyrraedd athrawon mewn da bryd i fedru paratoi i'w haddysgu. Ni ddylid disgwyl i athrawon defnyddio gwyliau'r haf i baratoi cwrs ar gyfer mis Medi. Ni ddylid cosbi athrawon cyfrwng Cymraeg oherwydd oedi cyhoeddi adnoddau cyfrwng Cymraeg neu oherwydd diffyg adnoddau Cymraeg ar y wefan.

Cynhadledd
Sir Caerfyrddin
Cynigydd:
Ceri Evans
Eilydd: Noir Jones

PASIWYD YN UNFRYDOL

Cynnig 2 Sensitifrwydd wrth bennu cynnwys cyrsiau TGAU

Mae'r TGAU Cymraeg newydd yn gofyn am astudio nifer o destunau newydd, sydd yn ganmoladwy; fodd bynnag mae nifer o'r testunau yma yn cynnwys marwolaeth fel rhan o'r testun. Fe all hyn agor clwyfau i'r sawl sydd yn galaru.

Mae'r gynhadledd yn gofyn i CBAC ddefnyddio sensitifrwydd wrth gynllunio pa storïau byrion i'w cynnwys yn y cwrs TGAU Cymraeg. Mae nifer o'r straeon byrion yn cyfeirio at farwolaeth, heb ystyried yr effaith ar blant ac athrawon sydd yn galaru.

Cynhadledd
Sir Caerfyrddin
Cynigydd:
Ceri Evans
Eilydd: Noir Jones

Cynigiwyd gwelliant:

Noir Jones

Yn dilyn trafodaeth ar y gwelliant, pleidleisiwyd fel a ganlyn:

O blaid y cynnig – 7

Yn erbyn y cynnig - 7

Yn ymatal – 7

Bu'n rhaid i'r Cadeirydd fwrw ail bleidlais (o blaid) a **PHASIWYD Y GWELLIANT**

Cynnig 3

O fis Medi 2027, bydd cymwysterau TAAU (Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch) (VCSE) newydd ar gael i bobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed yng Nghymru mewn amrywiaeth o bynciau cysylltiedig â gwaith. Nodir y bydd cyrff dyfarnu'n cyhoeddi'r manylebau ar gyfer y cymwysterau TAAU cymeradwy, flwyddyn cyn iddyn nhw gael eu haddysgu am y tro cyntaf mewn ysgolion.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar CBAC i sicrhau fod yr holl adnoddau i addysgu'r cyrsiau TAAU ar gael yn y Gymraeg ar yr un pryd ag y maent ar gael yn Saesneg.

*Cynhadledd Sir Caerfyrddin
Cynigydd: Ceri Evans
Eilydd: Noir Jones*

PASIWYD YN UNFRYDOL

Cynnig 4

Ym Mil y Gymraeg ac Addysg, nodir y categorïau iaith fel a ganlyn:

- a) Y categori "Prif Iaith- Cymraeg",
- b) Y categori "Dwy Iaith";
- c) Y categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg"

Y teimlad yw fod y diffiniad o addysg Cymraeg fel 'Prif Iaith – Cymraeg' yn tansilio holl egwyddorion addysg cyflawn Cymraeg ac yn ailddiffinio beth yw addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i adfer cyfeiriad at 'Addysg cyfrwng Cymraeg' ym Mil y Gymraeg ac Addysg. Oni wneir hyn, bydd UCAC yn penderfynu gwrthwynebu'r Bil.

*Cynhadledd Sir Torfaen
Cynigydd: Nia Goode
Eilydd: Jonathan Richards*

Cynigiwyd gwelliant:

Ceri Evans

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i adfer cyfeiriad at 'Addysg cyfrwng Cymraeg' ym Mil y Gymraeg ac Addysg.

PASIWYD Y GWELLIANT YN UNFRYDOL

Cynnig 5

Yn sgil newidiadau i gategorïau ysgolion ym Mil y Gymraeg ac Addysg, mae peth pryder bod yna berygl i'r Gymraeg mewn rhai ardaloedd.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych o'r newydd ar gategorïau ieithyddol ysgolion, gan sicrhau nad oes glastwreiddio ar y ddarpariaeth Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n ardaloedd Cymraeg naturiol.

Cyngor Cenedlaethol

PASIWYD YN UNFRYDOL

B Amodau Gwaith

Cynnig 6 - Hyfforddiant CBAC

Mae nifer o gyrsiau hyfforddiant diweddar CBAC wedi cael eu trefnu fel rhan o ddiwrnodau hyfforddiant clwstr awdurdodau lleol.

Mae hyn wedi golygu fod angen i rai athrawon deithio pellteroedd mawr yn enwedig mewn siroedd fel Powys a Cheredigion. Nid yw gorfod cychwyn am 6 y bore i gyrraedd hyfforddiant yn dderbyniol.

Mae UCAC yn galw ar CBAC a'r Awdurdodau Lleol i sicrhau fod hyfforddiant ar gael yn lleol, neu o fewn teithio rhesymol, ac yn digwydd o fewn oriau cyfeiriedig athrawon, sef 1265 awr.

Adran Pensiynau ac Amodau Gwaith
Cynigydd: Alan Chappell-Williams
Eilydd: Rhun Llwyd

Cynigiwyd gwelliant:

Mae UCAC yn galw ar CBAC/CYDAG a'r Awdurdodau Lleol i sicrhau fod hyfforddiant ar gael yn lleol, neu o fewn teithio rhesymol, ac yn digwydd o fewn oriau cyfeiriedig athrawon, sef 1265 awr.

Cynigydd y gwelliant – Eiliw Mair

PASIWYD Y GWELLIANT YN UNFRYDOL

Cynnig 7: Ariannu

Mae proses Llywodraeth Cymru o ariannu Cynghorau Sir i dalu am gyflogi athrawon yn un sydd yn defnyddio fformiwla a chyflog cyfartalog ar draws Cymru, yn hytrach na thalu yn unol â gofynion y Sir benodol.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Llywodraeth Cymru i gymryd cyfrifoldeb a rheolaeth dros ariannu cyflogau staff er mwyn sicrhau nad yw ysgolion a chynghorau lleol ar eu colled oherwydd trefniadau ariannol a bennwyd gan y Llywodraeth.

Cymdeithas Sir Caerfyrddin
Cynigydd: Noir Jones
Eilydd: Ceri Evans

Cynnig 8: Ariannu ysgolion

Gan fod disgyblion cynradd yn cael cinio ysgol am ddim erbyn hyn, nid yw rhieni'r dysgwyr hynny o gartrefi incwm isel, fyddai â hawl i brydau am ddim, yn llenwi ffurflenni i hawlio'r buddiannau eraill y gallent eu cael. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith ar arian Grantiau Datblygu Disgyblion (PDG) – mae hyn yn golygu fod ysgolion yn colli degau o filoedd o bunnoedd.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ysgolion yn cael taliad ychwanegol (uplift) a fydd yn adlewyrchu nifer y disgyblion sydd o gartrefi incwm isel (a fyddai'n draddodiadol wedi cael PYDd) ac nad ydynt yn dibynnu'n unig ar gael rhieni i lenwi ffurflenni.

*Cyngor Cenedlaethol
Cynigydd: Sara Edwards
Eilydd: Geraint Phillips*

PASIWYD (1 YN YMATAL)

Cynnig 9: Cyflogi athrawon dan hyfforddiant

Mae mwy a mwy o ysgolion yn cynnig cyfleoedd i ddarpar athrawon hyfforddi wrth iddynt weithio yn yr ysgol – yr opsiwn cyflogedig (gweler manylion isod). Nid yw UCAC yn gwrthwynebu'r cynllun hwn ac yn ddi-os mae iddo ei ragoriaethau, ond mae rhai ysgolion yn defnyddio'r opsiwn cyflogedig i arbed arian h.y mae athrawon yn cael eu diswyddo, ond eto maent yn cynnig lleoedd i ddarpar athrawon ar yr opsiwn cyflogedig.

Manylion yr opsiwn cyflogedig

Mae'r opsiwn cyflogedig ar gael ar y llwybr cynradd a'r llwybr uwchradd mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg, Cymraeg, Saesneg, Saesneg gyda Drama, Saesneg gydag Astudiaethau'r Cyfryngau, Dylunio a Thechnoleg neu Gyfrifiadura/TGCh, ITM.

Mae newidiadau newydd i gyfraniad grant cyflog Llywodraeth Cymru yn golygu nad yw ysgolion bellach yn talu cyflogau myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n astudio i ddod yn athrawon uwchradd. Ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, bydd Llywodraeth Cymru'n cyfrannu grant cyflog 100% i ysgolion sy'n cefnogi myfyriwr cyflogedig TAR ar unrhyw un o'r 6 pwnc sydd ar gael, neu grant cyflog 100% i ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n cefnogi myfyriwr i fod yn athro Cymraeg. Ar gyfer ysgolion Uwchradd cyfrwng Saesneg, mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu grant cyflog o 50% wrth gymeradwyo myfyrwyr yn y 5 o'r 6 pwnc prinder.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthod hawl i ysgolion fod yn rhan o'r cynllun cyflogedig os yw'r ysgol yn mynd drwy broses ormodedd. Ni ddylai'r cynllun fod yn fygythiad i swyddi athrawon sydd eisoes yn gyflogedig yn yr ysgol.

*Cyngor Cenedlaethol
Cynigydd: Eiliw Mair
Eilydd: Sara Edwards*

PASIWYD YN UNFRYDOL

Cynnig 10: Newid cewynnau

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae mwy a mwy o blant yn dechrau'r ysgol heb allu defnyddio'r tŷ bach. O ganlyniad, mae staff ysgolion yn gorfod newid cewynnau plant.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar bob cyngor Sir i ddilyn trywydd cyngor Blaenau Gwent gan sicrhau nad yw amser prin a gwerthfawr athrawon yn cael ei wastraffu ar newid cewynnau plant sydd heb ddatganiad penodol am anghenion addysgiadol arbennig.

*Cynhadledd Sir Caerfyrddin
Cynigydd: Ceri Evans*

PASIWYD YN UNFRYDOL

Cynnig 11: Ariannu Unedau Arbennig

Mae yna blant mewn ysgolion cynradd sydd yn aros am le mewn unedau arbennig, ond mae'r ysgol gynradd yn cael oddeutu £3,000 y disgybl tra bo'r Unedau Arbennig yn cael tua £30,000 y disgybl sy'n golygu nad yw'r ysgol gynradd na'r disgybl yn cael chwarae teg.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod Unedau Arbennig yn cael eu hariannu'n deg, er mwyn sicrhau lle i'r plentyn mewn uned arbennig.

Cynhadledd Sir Caerfyrddin

Cynigydd: Noir Jones

Eilydd: Ceri Evans

PASIWYD YN UNFRYDOL

Cynnig 12: Ymddygiad disgyblion

Mae ymddygiad mewn ysgolion yn peri pryder cynyddol. Erbyn hyn, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi datgan y cynhelir Uwch Gynhadledd ym mis Mai i drafod ymddygiad.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod yr Uwch Gynhadledd yn esgor ar:

- Lunio cynllun gweithredu pwrpasol
- Ymchwilio i sut mae llais, lles, diogelwch a hawliau'r athro yn cael eu sicrhau yng nghydestun ymddygiad annerbyniol cynyddol plant mewn ysgolion ar draws Cymru
- Mynd i'r afael â rôl y rhieni (parent power) wrth ymdrin ag ymddygiad plant ac yng nghydestun hawliau a lles yr athro

Cyngor Cenedlaethol

Cynigydd: Sara Edwards

Eilydd: Gwenno Wyn

PASIWYD YN UNFRYDOL

Cynnig 13: Diarddel disgyblion

Mae ysgolion yn nodi fod penaethiaid dan bwysau oddi wrth Awdurdodau Lleol i beidio â diarddel disgyblion. Er bod ysgolion yn cofnodi pryderon am ymddygiad unigolion ac yn darparu tystiolaeth i gefnogi eu pryder, nid ydynt yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth briodol.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod camau pendant a chefnogaeth i ysgolion, gan eu gwneud yn haws i ysgolion ddiarddel disgyblion sy'n peri pryder ac sydd oherwydd eu hymddygiad yn gwneud staff a dysgwyr yn ofnus ac yn agored i niwed.

Cyngor Cenedlaethol

Cynigiwyd gwelliant:

Alan Thomas -Chappell

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod camau pendant a chefnogaeth i ysgolion, gan eu gwneud yn haws i ysgolion ddiarddel disgyblion sy'n peri pryder ac sydd oherwydd eu hymddygiad yn gwneud staff a dysgwyr a'r unigolyn yn ofnus ac yn agored i niwed. Mae'r Gynhadledd am sicrhau lles pob disgybl.

GWRTHODWYD Y GWELLIANT

Cynigiwyd gwelliant newydd:

Julia James

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod camau pendant a chefnogaeth i ysgolion, gan eu gwneud yn haws i ysgolion ddiarddel disgyblion sy'n peri pryder ac sydd oherwydd eu hymddygiad yn gwneud staff a dysgwyr yn ofnus ac yn agored i niwed. Dylai'r drefn gynnig cefnogaeth i bawb- gan gynnwys yr un sydd wedi cael ei ddiarddel.

PASIWYD Y GWELLIANT NEWYDD YN UNFRYDOL

Cynnig 14: Mesur ysgolion yn ôl niferoedd sy'n cael eu diarddel

Un o'r rhesymau pam fod ysgolion/Awdurdodau Lleol yn gyndyn i ddiarddel disgyblion yw am fod data nifer disgyblion a gafodd eu diarddel yn cael ei ddefnyddio i 'fesur' ysgolion/awdurdodau lleol e.e. gan Estyn.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw ystadegau diarddel yn cael eu defnyddio fel llinyn mesur ar gyfer ysgolion, ac o'r herwydd y bydd ysgolion yn cael mwy o ryddid i ddiarddel dysgwyr treisgar a bygythiol.

*Cyngor Cenedlaethol
Cynigydd: Geraint Phillips
Eilydd: Sara Edwards*

PASIWYD YN UNFRYDOL

Cynnig 15: Darpariaeth amgen

Mae disgyblion lletchwith ac anystywallt yn dod yn broblem gynyddol o fewn ysgolion ac nid oes gan ysgolion yr adnoddau i ymdrin yn deg â nhw.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau buddsoddi digonol mewn canolfannau addysg amgen ym mhob sir, fel bod gan bob ardal gymorth digonol a phwrpasol a fydd yn diwallu anghenion dysgwyr sydd wedi eu diarddel o ysgolion prif ffrwd.

*Cyngor Cenedlaethol
Cynigydd: Ceri Evans
Eilydd: Noir Jones*

PASIWYD YN UNFRYDOL

Cynnig 16: Cynlluniau clo mewn ysgolion

Mae ysgolion bellach â chynlluniau clo (lockdown), ond ymddengys nad oes cysondeb rhwng ysgolion.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu systemau, gan gynnwys systemau electronig, ar gyfer galluogi ysgolion i weithredu cynlluniau clo effeithiol.

*Cyngor Cenedlaethol
Cynigydd: Eiliw Mair
Eilydd: Sara Edwards*

PASIWYD YN UNFRYDOL

Cynnig 17: Rhieni bygythiol

Mae ysgolion yn wynebu mwy a mwy o enghreifftiau o rieni bygythiol sy'n dod i'r ysgol ac yn disgwyl cael eu gweld yn syth.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio

- a) Polisi Cenedlaethol a fydd yn ei gwneud hi'n gwbl glir nad yw rhieni i droi i fyny mewn ysgolion heb wneud apwyntiad o flaen llaw
- b) Canllawiau pendant i rieni sut y maent i ymwneud ag ysgolion

*Cyngor Cenedlaethol
Cynigydd: Geraint Phillips
Eilydd: Ceri Evans*

PASIWYD YN UNFRYDOL

Cynnig 18: Ymddygiad heriol rhieni

Gwnaethpwyd nifer o newidiadau i'r dulliau cyfathrebu rhwng athrawon a rhieni yn ystod cyfnod Covid. Roedd hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cefnogaeth i'r disgyblion.

Mae ysgolion yn defnyddio meddalwedd gwahanol i gadw mewn cyswllt, ac mae athrawon wedi gweld cynnydd yn yr ymddygiad gwael gan rieni ar lwyfannau fel Classchart.

Mae nifer o sefydliadau yn disgwyl i'r athrawon unigol gysylltu gyda'r rhieni. Mae hyn yn ychwanegu at lwyth gwaith a straen i athrawon, ac yn gallu achosi straen i rieni yn enwedig os oes sawl athro yn cysylltu.

Mae UCAC yn gofyn i'r Llywodraeth sicrhau fod polisiau yn eu lle gan bob awdurdod, a bod canllawiau clir ynglŷn â'r dulliau cyfathrebu gyda rhieni, er mwyn sicrhau nad yw athrawon yn gorfod wynebu ymddygiad annerbyniol.

Adran Pensiynau ac Amodau Gwaith

Cynigydd:

Eilydd:.....

SYRTHIODD Y CYNNIG

Cynnig 19: Sefyllfa Deallusrwydd Artiffisial

Mae'r datblygiad o fewn y maes Deallusrwydd Artiffisial, yn cael ei weld fel offeryn defnyddiol i athrawon.

Yn anffodus mae diffyg dealltwriaeth ymysg y gweithle a llywodraethwyr o'r dechnoleg, yn gallu arwain at rai athrawon yn wynebu paneli disgyblu am wneud defnydd effeithiol o'r dechnoleg i greu adnoddau a chynllunio gwersi.

Mae UCAC yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau fod canllawiau clir i ysgolion ynglŷn â'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial i greu adnoddau / deunyddiau dysgu, ac nad yw athrawon yn cael eu disgyblu am ddefnydd effeithiol o'r dechnoleg.

Adran Pensiynau ac Amodau Gwaith

Cynigydd:

Eilydd:.....

SYRTHIODD Y CYNNIG

C Arall

Cynnig 20: Dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn y gymuned

Mae UCAC yn gresynu mai dim ond 25% o ddsbarthiadau Cymraeg i Oedolion sy'n cael eu cynnal mewn canolfannau cymunedol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn y gymuned yn cwrdd â'r galw, gan gofio fod yn well gan bobl fod wyneb yn wyneb.

Cymdeithas Sir Torfaen

Cynigydd: Nia Goode

Eilydd: Jonathan Richards

Cynigiwyd gwelliant:

Eliw Mair

Mae UCAC yn gresynu mai dim ond 25% o ddsbarthiadau Cymraeg i Oedolion sy'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn y gymuned yn cwrdd â'r galw.

PASIWYD Y GWELLIANT YN UNFRYDOL

Cynnig 21 : Athrawon a'r cyfryngau

Yn ddiweddar gohiriwyd cyflwyno'r arholiad TGAU Hanes newydd am flwyddyn, oherwydd problemau yn ymwneud â'r cwricwlwm. Yn dilyn y problemau gyda'r cwricwlwm Hanes mae'r portread yn y cyfryngau wedi bod yn anghywir ac yn annheg i athrawon, gan ddatgan nad yw athrawon yn deall beth maent i fod ei ddysgu.

Mae'r Gynhadledd yn galw ar gyrff megis Llywodraeth Cymru a CBAC i drafod athrawon yn deg, heb ddefnyddio *spin* gwleidyddol.

PASIWYD YN UNFRYDOL

23. CYNNIG BRYS

Dysgu'r wyddor yn ôl enwau'r llythrennau

Cyd-destun

Megis yn y Saesneg, mae dwy ffordd o gyfeirio at lythrennau'r wyddor yn y

Gymraeg:

- Yn ôl **sain y llythyren, sef yn ffonetig** (megis wrth ddysgu plant ifanc i ddarllen, er enghraifft);
- Yn ôl **enw'r llythyren**.

Yn y gyfundrefn addysg Saesneg, mabwysiedir y ddwy ffordd **yn ôl oedran y disgyblion**.

Wrth addysgu plant i ddarllen Saesneg, defnyddir y dull ffonetig, ond, yn hwyrach yn eu gyrfa addysgol fe ddysgant ddefnyddio **enwau'r llythrennau**.

Er mwyn esbonio hyn yn iawn, mae angen defnyddio'r Wyddor Seinegol Gydwladol / sef yr International Phonetic Association (IPA). Beth bynnag, gan nad yw pawb yn gyfarwydd â symbolau'r gymdeithas honno, fe ddefnyddir y dull canlynol **gydag enghreifftiau Saesneg** er mwyn egluro:

Letter B:

Ynganiad **ffonetig**: By (sef yr un sain ag yn ynganiad y gair Cymraeg 'Bydysawd')

Enw'r llythyren yn Saesneg: Bee (megis ynganiad y gair Saesneg 'bee')

Enghraifft: **BBC** (ynganiad y gorfforaeth ddarlledu yn Saesneg)

Letter C:

Ynganiad **ffonetig**: Cy (sef yr un sain ag yn ynganiad y gair Cymraeg 'Cysgu')

Enw'r llythyren yn Saesneg: See (megis ynganiad y gair Saesneg 'see')

Enghraifft: **BBC** (ynganiad y gorfforaeth ddarlledu yn Saesneg)

Wrth ddysgu Saesneg, felly, fe welir bod disgyblion **yn symud o'r dull ffonetig (ar ôl dysgu darllen)** at ddefnyddio **enwau'r llythrennau**.

Beth bynnag, yn y Gymraeg, bu'n duedd i lynu at y dull ffonetig **ar hyd yr amser**, gyda'r canlyniad bod disgyblion y sector cynradd, uwchradd, a hyd yn oed myfyrwyr prifysgol erbyn hyn, yn methu ynganu'r wyddor Gymraeg yn gywir.

Er mwyn datrys y broblem, felly, mae angen i athrawon a darlithwyr fod yn fwy ymwybodol o'r diffyg hwn, ac arfer yn feunyddiol **enwau swyddogol y llythrennau (yn hytrach na'u seiniau)** wrth addysgu disgyblion a myfyrwyr.

Y Cynnig

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod disgyblion a myfyrwyr Cymru, wrth gyfeirio at lythrennau'r wyddor Gymraeg, yn cael eu haddysgu i ddefnyddio **enwau**'r llythrennau yn hytrach na'u **seiniau** ffonetig

1. *Cynigydd: Hywel Lewis – Sir Gaerfyrddin*

Pasiwyd y cynnig – 8 o blaid y cynnig, 5 yn erbyn y cynnig, 6 yn ymatal